



# YSGOL BOTWNNOG

## LLAWLYFR PYNCIAU CA 4 - 2024-2026


















# DEWISIADAU DIWEDD BLWYDDYN 9 AR GYFER CYFNOD ALLWEDDOL 4

Mae'r amser yn prysur agosáu lle bydd angen i'ch mab/merch benderfynu pa bynciau y maent yn dymuno eu hastudio ymhellach ym mlynyddoedd 10 ac 11. Mae'r penderfyniad yma yn un pwysig ac rydym fel ysgol yn awyddus i'n disgyblion wneud y penderfyniadau cywir.

Bydd y disgyblion yn dewis o amrediad eang o bynciau yn yr ysgol a rhai sydd yn cael eu cynnig gan Goleg Meirion Dwyfor, Pwllheli a Glynllifon. Efallai na fydd pob un o'r cyrsiau hyn yn gallu cael eu rhedeg oherwydd diffyg niferoedd sy'n dangos diddordeb.

Er mwyn gwneud y penderfyniadau cywir mae'r ysgol gyda nifer o ffyrdd o rannu gwybodaeth gyda'r disgyblion a'i rhieni/warcheidwaid:

- Mae gwybodaeth am bob pwnc dewis ar gael yn y llawlyfr yma.
- Nosweithiau agored:
    - Mae'r **ysgol** yn gwahodd pob disgybl ym mlwyddyn 9 a'u rhieni/warcheidwaid i **noson rieni ar ôl y Pasg** lle cânt drafod y gwaith a'r pynciau dewis gyda'r athrawon perthnasol (bydd gwybodaeth bellach am y noson hon yn cael ei ddosbarthu nes at y noson).
    - Bydd **Coleg Meirion Dwyfor,** yn cynnal noson agored i rieni a disgyblion sydd gyda diddordeb mewn dilyn cwrs **BTEC Peirianneg, BTEC Cyfryngau neu BTEC Amaethyddiaeth.**

Mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am y broses dewis pynciau.

Cyn gwneud penderfyniadau pwysig:

- Rhaid deall pa benderfyniadau sydd rhaid eu gwneud a phaham;
- Darganfod y ffeithiau i gyd;
- Rhaid pwyso a mesur y ffeithiau yn ofalus;
- Cymeryd cyngor ac yna gwneud y penderfyniadau sydd orau i chi.

# CWRICWLWM BL 10 AC 11

Bydd eich mab / merch yn dilyn rhai cyrsiau gorfodol ac yn cael dewis 3 cwrs o'r opsiynau.

## CYRSIAU GORFODOL

- TGAU Cymraeg Iaith
- TGAU Cymraeg - Llenyddiaeth*
- TGAU Saesneg Iaith
- TGAU Saesneg - Llenyddiaeth*
- TGAU Mathemateg - Rhifedd
- TGAU Mathemateg
- TGAU Gwyddoniaeth Ddwbl
- Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

Gall y bydd rhai disgyblion yn dilyn cwrs Lefel Mynediad mewn Cymraeg, Saesneg a Mathemateg.
* Efallai na fydd pob set yn astudio Llenyddiaeth.

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys gwybodaeth am yr holl gyrsiau a gynigir.
Mae yna hefyd wersi Addysg Gorfforol gorfodol - tydi 'rhain ddim yn arwain at gymhwyster.

Rydym yn gobeithio gallu cynnig cymaint â phosibl o'r pynciau hyn ond os nad oes digon o ddiddordeb mewn pwnc yna ni fyddwn yn gallu ei gynnig.

# CYMRAEG IAITH (TGAU)

## LLEOLIAD: YSGOL BOTWNNOG

## BETH FYDDAI'N EI DDYSGU?

Bydd y cwrs hwn yn dy baratoi ar gyfer byd gwaith ac yn dy helpu:

- i gyfathrebu'n hwylus, yn gywir ac yn rhugl ar lafar ac yn ysgrifenedig mewn sefyllfaoedd gwahanol;
- i gyfrannu i drafodaethau ar bynciau amrywiol gan roi sylw i syniadau eraill;
- i ymateb i destunau darllen ysgogol sydd yn hybu diddordeb a brwdfrydedd;
- i ysgrifennu mewn dulliau gwahanol – gan roi sylw i bwrpas, cynulleidfa a chywirdeb.

## SUT FYDDAI'N DYSGU?

Drwy gael cyfle:

- i wneud pob math o dasgau llafar - yn unigol ac mewn grŵp gan gyflwyno gwybodaeth ar destunau a mynegi barn ar bynciau cyfoes;
- i ysgrifennu ar gyfer pob math o gynulleidfaoedd a hynny drwy ddefnyddio cyweiriau iaith wahanol;
- i astudio pob math o destunau darllen ac ystyried sut mae'r awduron yn cyflwyno eu pynciau.

## SUT FYDDAI'N CAEL FY ASESU

| | Disgrifiad | Gwerth |
|---|---|---|
| **Uned 1** | **Asesiad Di-arholiad:** Llafar<br>• Tasg 1 (15%) – Cyflwyniad Unigol Ar Sail Ymchwil<br>• Tasg 2 (15%) - Ymateb a Rhyngweithio | 30% |
| **Uned 2** | **Arholiad**: Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio | 35% |
| **Uned 3** | **Arholiad**: Darllen ac Ysgrifennu: Trafod, Perswâd a Chyfarwyddiadol | 35% |

## BETH FYDD YN DIGWYDD AR ÔL Y CWRS YMA?

Bydd y cwrs yn sylfaen dda i ti ym myd gwaith ac wrth astudio pynciau eraill gan i ti feithrin gymaint o sgiliau gwahanol. Gelli ddilyn cwrs pellach mewn Cymraeg hefyd – Uwch Gyfrannol a Safon Uwch yng Ngholeg Meirion Dwyfor.

## SYNIADAU AM SWYDDI

Unrhyw swydd sydd yn ymwneud â phobl ac yn gofyn am sgiliau cyfathrebu dwyieithog - Derbynnydd, Rheolwr Gwesty, Gweithiwr Cymdeithasol, Heddlu, Y Gyfraith, Newyddiadurwr, Athro, Gwaith Swyddfa, y Cyfryngau, Meddygaeth, Mân-werthu ac ati.

## AM FWY O WYBODAETH?

Gofynnwch i'ch Athrawon, Cynghorydd Gyrfa neu ymweld â'r wefan [www.cbac.co.uk](http://www.cbac.co.uk)

# CYMRAEG - LLENYDDIAETH (TGAU)

## LLEOLIAD:  YSGOL BOTWNNOG

## BETH FYDDAI'N EI DDYSGU?

Bydd y cwrs yn dy helpu i ddysgu am:

- gyflwyniadau llenyddol sydd yn cael eu cynhyrchu ar gyfer y teledu/ffilm/ tâp a disg;
- y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer astudio llenyddiaeth a'r ffordd y mae awduron yn defnyddio iaith i greu effaith;
- am feirdd a llenorion Cymru a'r ffyrdd y maen nhw'n ymateb i bob math o bynciau a'u dulliau o gyflwyno'r pynciau hynny.

## SUT FYDDAI'N DYSGU?

- Drwy ddarllen a thrafod gwaith beirdd a llenorion.
- Drwy gymharu â chyferbynnu testunau er mwyn gweld tebygrwydd a gwahaniaethau ynddynt.
- Drwy ddilyn uned ar  Lunyddiaeth (addasu cyfrol yn ffilm).

## SUT FYDDAI'N CAEL FY ASESU?

| | Disgrifiad | Gwerth |
|---|---|---|
| **Uned 1** | **Arholiad**: Barddoniaeth<br>Gosodir dau bapur arholiad – Haen Uwch (A* - D) a Haen Sylfaenol (C – G) | 25% |
| **Uned 2** | **Arholiad**: Rhyddiaith - Nofel<br>Gosodir dau bapur arholiad – Haen Uwch (A* - D) a Haen Sylfaenol (C – G) | 25% |
| **Uned 3** | **Asesiad Llafar**: Llunyddiaeth (hyd at 20 munud y grŵp)<br>Gosodir dau arholiad – Haen Uwch (A* - D) a Haen Sylfaenol (C – G) | 25% |
| **Uned 4** | **Asesiad Di-arholiad** - Tasgau Ysgrifenedig | 25% |

## BETH FYDD YN DIGWYDD AR ÔL Y CWRS YMA?

Mi fyddi'n gweld sut y mae llenyddiaeth yn ehangu dy orwelion, yn berthnasol i dy fywyd pob dydd wrth i ti sbïo ar y byd a'i bobl. Gelli ddilyn cwrs  Uwch Gyfrannol a Safon Uwch yng Ngholeg Meirion Dwyfor.

## SYNIADAU AM SWYDDI

Unrhyw swydd sydd yn ymwneud â phobl – ynghyd â swyddi fel Cyfieithydd, Gweithiwr Cymdeithasol, Llyfrgellydd, Athro, swyddi ym myd y Ffilm a'r Cyfryngau, Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol.

## AM FWY O WYBODAETH?

Gofynnwch i'ch Athrawon, Cynghorydd Gyrfa neu ymweld â'r wefan www.cbac.co.uk

# SAESNEG IAITH (TGAU)

## LLEOLIAD: YSGOL BOTWNNOG

## BETH FYDDAI'N EI DDYSGU?

Yn ystod y cwrs yma byddwn yn dysgu:

- i siarad a gwrando mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a phwrpasau;
- i ddarllen ac ateb cwestiynau ar amrywiaeth o destunau gan gynnwys testunau disgrifiadol, naratif, mynegi barn, dadleuol, dwyn perswâd a chyfarwyddiadol;
- i ysgrifennu ar gyfer ystod o bwrpasau gan gynnwys disgrifiadau, naratif, mynegi barn, perswâd, a dadleuol;
- i brawf-ddarllen a golygu testun ysgrifenedig.

## SUT BYDDAI'N DYSGU?

Yn ystod y cwrs byddwch yn cwblhau tasgau Llafar, Darllen ac Ysgrifennu bydd yn eich cynorthwyo:

- i gyfathrebu'n glir gan ddefnyddio gramadeg a geirfa Saesneg Safonol;
- i weithio ar eich pen eich hun ac mewn grwpiau;
- i ddarllen testun er mwyn ei ddeall a gallu darllen rhwng y llinellau i gael dealltwriaeth fanylach;
- i ysgrifennu'n fanwl gywir a gyda phwrpas, gan ddefnyddio gramadeg a geirfa Saesneg Safonol.

## SUT FYDDAI'N CAEL FY ASESU?

| | Disgrifiad | Gwerth |
|---|---|---|
| **Uned 1** | **Asesiad:** Llafar<br>• Tasg 1 (10%) – Cyflwyniad Unigol<br>• Tasg 2 (10%) - Trafodaeth Grŵp<br>Byddwch yn cael wythnos yn unig i baratoi ar gyfer y tasgau hyn. | 20% |
| **Uned 2** | **Arholiad** yn profi eich dealltwriaeth a gallu i ateb cwestiynau ar ystod o destunau testunau disgrifiadol, naratif a mynegi barn. Bydd disgwyl i chi prawf-ddarllen a golygu testunau. Bydd rhaid i chi ysgrifennu un ai darn disgrifiadol, naratif neu fynegi barn. | 40% |
| **Uned 3** | **Arholiad** yn profi eich dealltwriaeth a gallu i ateb cwestiynau ar ystod o destunau dadleuol, dwyn perswâd a chyfarwyddiadol. Bydd disgwyl i chi ysgrifennu darn dadleuol A darn i ddwyn perswâd. | 40% |

## BETH FYDD YN DIGWYDD AR ÔL Y CWRS YMA?

Gallech fynd ymlaen i astudio Lefel AS/A Saesneg.

## SYNIADAU AM SWYDDI YN DDI-BEN-DRAW

Awdur, Cymhorthydd Gofal, Ymgynghorydd Gyrfa, Rheolwr Gwesty, Newyddiadurwr, Gweithiwr Swyddfa, Llyfrgellydd, Gweithio i'r Heddlu, Golygydd Cylchgrawn, Nyrs, Gweithiwr Cymdeithasol, Cyfreithiwr, Therapydd Llefaredd, Athro, Cyflwynydd Teledu/Radio, Cyfieithydd ac yn y blaen.

## AM FWY O WYBODAETH?

Gofynnwch i'ch Athrawon, Cynghorydd Gyrfa neu ymweld â'r wefan [www.cbac.co.uk](http://www.cbac.co.uk)

# SAESNEG - LLENYDDIAETH (TGAU)

## LLEOLIAD: YSGOL BOTWNNOG

## BETH FYDDAI'N EI DDYSGU?

Bydd y cwrs yma yn eich cynorthwyo i ymchwilio i'ch diddordebau llenyddol ac i fod yn ddarllenwyr brwdfrydig a deallus sy'n ymateb i'r hyn yr ydych ei ddarllen. Byddwch yn cael cyfleoedd:

- i ddarllen, deall ac ymateb i ystod eang o destunau llenyddol;
- i werthfawrogi'r ffyrdd mae awduron yn defnyddio iaith i greu effaith;
- i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer dadansoddi a beirniadu llenyddiaeth;
- ddod yn ymwybodol o gyd-destunau cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol testunau a'u dylanwad.

## SUT BYDDAI'N DYSGU?

Yn ystod y cwrs yma byddwch yn cwblhau amrediad eang o waith dosbarth a gwaith cartref fydd yn eich dysgu:

- i ymateb yn fanwl i destunau Rhyddiaith, Barddoniaeth a Drama mewn modd beirniadol a sensitif;
- i gyfeirio at y testun i gefnogi'ch pwyntiau / barn;
- i ymchwilio i sut mae iaith, strwythur a ffurf testun yn cyfrannu i ystyr y testun;
- i gymharu â chyferbynnu testunau, gan ddangos sut maent yn debyg ac yn wahanol;
- i berthnasu testunau i'w cyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol a'u traddodiadau llenyddol.

## SUT FYDDAI'N CAEL FY ASESU?

| | Disgrifiad | Gwerth |
|---|---|---|
| **Uned 1** | **Arholiad**: Byddwch yn astudio 1 darn o ryddiaith (nofel o Ddiwylliant Gwahanol) a Barddoniaeth Gyfoes. Bydd un cwestiwn cyd-destun ac 1 cwestiwn traethawd am y nofel. Bydd yna 1 cwestiwn yn gofyn am ddadansoddiad manwl / cymhariaeth o ddwy gerdd nad ydynt wedi eu gweld o'r blaen. | 35% |
| **Uned 2** | **Arholiad**: Byddwch yn astudio Drama Gyfoes a Rhyddiaith Lenyddol Draddodiadol (Nofel): Bydd 1 cwestiwn cyd-destun ac 1 cwestiwn traethawd am y Ddrama. Bydd 1 cwestiwn cyd-destun ac 1 cwestiwn traethawd am y Nofel. | 40% |
| **Uned 3** | **Asesiad Di-arholiad**: Bydd angen cwblhau 2 draethawd/aseiniad ar thema sy'n cael ei osod gan CBAC. Bydd yr asesiad cyntaf ar ddrama Shakespeare a'r ail ar Farddoniaeth bardd o Gymru. | 25% |

## BETH FYDD YN DIGWYDD AR ÔL Y CWRS YMA?

Gallech fynd ymlaen i astudio Lefel AS/A Llenyddiaeth neu gyfuniad o Iaith/Llenyddiaeth yng Ngholeg Meirion Dwyfor.

## SYNIADAU AM SWYDDI YN DDI-BEN-DRAW

Awdur, Gwerthwr Llyfrau, Newyddiadurwr, Golygydd Cylchgrawn/Papur Newydd, Llyfrgellydd, Cyflwynydd Teledu, Gweithiwr Cymdeithasol, Cyfreithiwr, Athro, ayyb.

## AM FWY O WYBODAETH?

Gofynnwch i'ch Athrawon, Cynghorydd Gyrfa neu ymweld â'r wefan [www.cbac.co.uk](http://www.cbac.co.uk)

# MATHEMATEG - RHIFEDD (TGAU) A MATHEMATEG (TGAU)

**BYDDWCH YN ASTUDIO AR GYFER DAU TGAU - MATHEMATEG (RHIFEDD) A MATHEMATEG**

## BETH FYDDAI'N EI DDYSGU?

### MATHEMATEG - RHIFEDD (TGAU)

Bydd y cwrs hwn yn dy helpu i ddysgu:

- am sgiliau rhifedd i'w defnyddio ym mywyd bob dydd;
- am sut i ddatrys problemau gan ddefnyddio Mathemateg;
- sut i wneud cyfrifiadau gan ddefnyddio rhifau o bob math a defnyddio'r sgiliau i ddatrys problemau;
- sut i ymdrin â rhai agweddau Algebra a'i ddefnyddio wrth ddatrys problemau;
- sut i ddefnyddio dulliau Mathemategol i ddatrys problemau Mesur a Geometreg;
- sut i drafod Data ac Ystadegaeth.

### MATHEMATEG (TGAU)

Bydd y cwrs yn defnyddio holl gynnwys y TGAU Mathemateg - Rhifedd a:

- bydd sgiliau Algebra yn cael eu hehangu ymhellach gyda sgiliau ychwanegol;
- bydd sgiliau Geometreg yn cael eu datblygu ymhellach;
- bydd gwaith ychwanegol yn ymwneud â thebygolrwydd.

## SUT FYDDAI'N DYSGU?

Mae'r cwrs yn datblygu sgiliau drwy ddysgu technegau, eu hymarfer a'u defnyddio mewn cyd-destun i ddatrys problemau.

## SUT FYDDAI'N CAEL FY ASESU?

| | | Disgrifiad | Gwerth |
|---|---|---|---|
| **Mathemateg - Rhifedd** | **Uned 1** | **Arholiad** di-gyfrifiannell: tair haen - uwch/canolradd/sylfaenol | 50% |
| | **Uned 2** | **Arholiad** gyda chyfrifiannell: tair haen - uwch/canolradd/sylfaenol | 50% |
| **Mathemateg** | **Uned 1** | **Arholiad** di-gyfrifiannell: tair haen - uwch/canolradd/sylfaenol | 50% |
| | **Uned 2** | **Arholiad** gyda chyfrifiannell: tair haen - uwch/canolradd/sylfaenol | 50% |

## BETH FYDD YN DIGWYDD AR ÔL Y CWRS YMA?

Gallech fynd ymlaen i astudio Lefel AS/A Mathemateg yng Ngholeg Meirion Dwyfor.
Mae TGAU Mathemateg yn gymhwyster hanfodol er mwyn cael dilyn rhai cyrsiau coleg neu brifysgol.

## SYNIADAU AM SWYDDI

- Actwari, Peirianneg, Pensaer, Tirfesurydd (Syrfëwr), Athro Mathemateg, Cyfrifydd, Swydd bancio neu yswiriant

## AM FWY O WYBODAETH?

Gofynnwch i'ch Athrawon, Cynghorydd Gyrfa neu ymweld â'r wefan [www.cbac.co.uk](http://www.cbac.co.uk)

# GWYDDONIAETH DWBL (TGAU DWYRADD)

## LLEOLIAD: YSGOL BOTWNNOG

## BETH FYDDAI'N EI DDYSGU?

Bydd 6 uned yn cael eu dysgu dros gyfnod o ddwy flynedd – 2 Uned Bywydeg, 2 Uned Cemeg a 2 Uned Ffiseg. Bydd yna hefyd un asesiad ymarferol yn cael ei gynnal yn ystod blwyddyn 11.
Gellir dilyn y cwrs ar un o ddwy haen, yr Haen Uwch (Graddau A* - D) neu'r Haen Sylfaenol (Graddau C – G), yn unol â gallu'r dysgwr. Mae'n gwrs TGAU dwbl sy'n golygu y bydd cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus yn arwain at ddwy radd TGAU.

## SUT FYDDAI'N DYSGU?

Bydd y cwrs TGAU Gwyddoniaeth Ddwbl yn dilyn cynllun a manyleb bwrdd arholi CBAC. Bydd y syniadau a gyflwynir yn cael eu datblygu dros y ddwy flynedd ac yn paratoi dysgwyr i allu dilyn cyrsiau uwch yn y gwyddorau.

## SUT FYDDAI'N CAEL FY ASESU?

| | Blwyddyn | Disgrifiad | Pa bryd | Gwerth |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | **10** | **Arholiad:** Bioleg 1 | Mis Mehefin Diwedd Blwyddyn 10 | 15% |
| **Uned 2** | **10** | **Arholiad:** Cemeg 1 | | 15% |
| **Uned 3** | **10** | **Arholiad:** Ffiseg 1 | | 15% |
| **Uned 4** | **11** | **Arholiad:** Bioleg 2 | Mis Mehefin Diwedd Blwyddyn 11 | 15% |
| **Uned 5** | **11** | **Arholiad:** Cemeg 2 | | 15% |
| **Uned 6** | **11** | **Arholiad:** Ffiseg 2 | | 15% |
| **Uned 7** | **11** | **Asesiad Ymarferol** yn cael ei gynnal yn y gwersi ond yn cael ei asesu'n allanol | Mis Ionawr (Blwyddyn 11) | 10% |

## BETH FYDD YN DIGWYDD AR ÔL Y CWRS YMA?

Ar ôl Blwyddyn 11, gellir astudio'r pynciau fel Ffiseg, Cemeg a Bywydeg i Safon Uwch. Neu mi ellir gwneud NVQ neu Brentisiaeth Fodern ar Lefel 2 neu 3 mewn maes perthnasol. Ar ôl hynny, mi fydd yn bosib mynd ymlaen i astudio pynciau gwyddonol mewn Prifysgol, neu weithio mewn swydd addas o dan oruchwyliaeth.

Os nad yw Gwyddoniaeth yn bwnc sy'n apelio ar gyfer ei astudio'n bellach rhaid cofio fod cael cymhwyster TGAU Gwyddoniaeth dda yn help i gael mynediad i rai cyrsiau coleg sy'n gysylltiedig â Gwyddoniaeth.

## SYNIADAU AM SWYDDI

- Peiriannydd ( Mecanyddol, Sifil, Electronig)
- Nyrs
- Meddyg, Deintydd neu Filfeddyg
- Seryddwr
- Trydanwr
- Ffisiotherapydd

## AM FWY O WYBODAETH?

Gofynnwch i'ch Athrawon, Cynghorydd Gyrfa neu ymweld â'r wefan [www.cbac.co.uk](http://www.cbac.co.uk)

# CYMHWYSTER BAGLORIAETH CYMRU / TYSTYSGRIF HER SGILIAU

## LLEOLIAD: YSGOL BOTWNNOG

## BETH FYDDAI’N EI DDYSGU?

Ffocws canolog Bagloriaeth Cymru yw darparu cyfrwng i ddisgyblion atgyfnerthu a meithrin sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd. Bydd y cymhwyster yn helpu dysgwyr i baratoi am y dyfodol drwy feithrin sgiliau, priodoleddau a mathau o ymddygiad a gaiff eu gwerthfawrogi gan addysgwyr ôl- 16 a darpar gyflogwyr. Mae’r pwyslais ar feithrin sgiliau trosglwyddadwy.

## SUT FYDDAI’N DYSGU?

**Y Dystysgrif Her Sgiliau**

Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn cynnwys pedair cydran:

- Project Unigol
- Her Menter a Chyflogadwyedd
- Her Dinasyddiaeth Fyd-eang
- Her y Gymuned.

Rhaid cwblhau’r prosiect a dwy her er mwyn llwyddo. Bydd canlyniadau cyfunol y tair cydran yn penderfynu p'un a gaiff y Dystysgrif Her Sgiliau, sydd gywerth a TGAU, ei dyfarnu ar lefel Genedlaethol (A*-C) neu Sylfaen (Pas*/Pas).

**Cymhwyster Bagloriaeth Cymru**

Mae Bagloriaeth Cymru yn seiliedig ar Dystysgrif Her Sgiliau ynghyd â Chymwysterau Ategol. Rhaid bodloni gofynion y Dystysgrif Her Sgiliau a'r Cymwysterau Ategol er mwyn cyflawni Bagloriaeth Cymru yn ei chyfanrwydd. Mae'r Cymwysterau Ategol yn cynnwys dau gymhwyster TGAU gorfodol mewn Saesneg Iaith neu Gymraeg Iaith ynghyd â Mathemateg – Rhifedd neu Mathemateg. Mae angen tri chymhwyster TGAU (neu gywerth) arall hefyd. Er mwyn bodloni gofynion Bagloriaeth Genedlaethol Cymru, rhaid ennill gradd A*-C ym mhob un o'r pum Cymhwyster Ategol. Yn yr un modd, er mwyn bodloni Bagloriaeth Sylfaen Cymru, rhaid ennill gradd A*-G yn y Cymwysterau Ategol.

## SUT FYDDAI’N CAEL FY ASESU?

| Cydrannau'r Dystysgrif Her Sgiliau | Pwysoli | Sgiliau a Asesir | Asesiad Mewnol | Safoni Allanol |
|---|---|---|---|---|
| Project Unigol | 50% | Cynllunio a Threfnu<br>Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau <br>Llythrennedd Digidol | ✓ | ✓ |
| Her Menter a Chyflogadwyedd | 25% | Creadigedd ac Arloesi<br>Effeithiolrwydd Personol<br>Llythrennedd Digidol | ✓ | ✓ |
| Her Dinasyddiaeth Fyd-eang | 25% | Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau<br>Creadigedd ac Arloesi | ✓ | ✓ |
| Her y Gymuned | 25% | Cynllunio a Threfnu<br>Effeithiolrwydd Personol | ✓ | ✓ |

**Mae’r diagram ar y dudalen nesaf yn dangos strwythur y gymhwyster Her Sgiliau a sut mae hwnnw’n plethu gyda’r pynciau eraill i ennill i ffurfio cymhwyster y Fagloriaeth.**


## AM FWY O WYBODAETH?


Gofynnwch i’ch Athrawon, Cynghorydd Gyrfa neu ymweld â’r wefan: www.cbac.co.uk

# Bagloriaeth Cymru / Welsh Baccalaureate

## Tystysgrif Her Sgiliau / Skills Challenge Certificate

Cywerth ag UN TGAU / Equivalent to ONE GCSE



# RHESTR O BYNCIAU DEWIS

Rydym yn gobeithio gallu cynnig cymaint o'r pynciau hyn â phosibl ond os nad oes digon o ddiddordeb mewn pwnc yna ni fyddwn yn gallu ei gynnig.

- TGAU Addysg Gorfforol
- Tystygrif Lefel 1/2 Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig
- BTEC Amaethyddiaeth
- TGAU Astudiaethau Crefyddol / Religious Studies
- TGAU Busnes
- TGAU Bwyd a Maeth
- TGAU Celf
- TGAU Cerdd
- BTEC Cyfryngau Creadigol
- TGAU Daearyddiaeth
- TGAU Drama
- TGAU Dylunio a Thechnoleg - Dylunio Cynnyrch
- TGAU Dylunio a Thechnoleg - Ffasiwn a Thecstilau
- TGAU Ffrangeg
- TGAU Gwyddoniaeth Triphlyg
- TGAU Hanes
- TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- BTEC Peirianneg
- TGAU Technoleg Digidol
- Agored - Addysg Bersonol a Chymdeithasol
- Agored - Addysg Gysylltiedig â Gwaith
- Agored - Cymru, Ewrop a’r Byd

# ADDYSG GORFFOROL (TGAU)

## LLEOLIAD: YSGOL BOTWNNOG

## BETH FYDDAI'N EI DDYSGU?

Mae cynnwys y pwnc yn canolbwyntio ar bum maes allweddol:

- Iechyd, ymarfer ac ymarfer corff;
- Ffisioleg ymarfer corff;
- Dadansoddi symud;
- Seicoleg chwaraeon a gweithgaredd corfforol;
- Materion diwylliannol cymdeithasol mewn chwaraeon a gweithgaredd corfforol.

Dylai disgyblion sy'n awyddus i ddilyn y cwrs yma ystyried y canlynol:

1. Bydd y disgyblion yn cymryd rhan mewn uned ffitrwydd fel rhan o raglen ffitrwydd personol.
2. Y dylent amcanu i fod yn aelod o dîm chwaraeon yn yr ysgol a/neu du allan i'r ysgol ac yn mynychu'r ymarferion yn rheolaidd.
3. Bod rhan ysgrifenedig y cwrs yn waith trwm, ac yn cymryd i fyny dros hanner amser y cwrs.

## SUT FYDDAI'N DYSGU?

Mae'r cwrs yn gymysgedd o dasgau ymarferol ac ysgrifenedig. Byddwch yn cael eich asesu ar ddiwedd pob uned ysgrifenedig ac ar ddiwedd pob uned o waith ymarferol.

## SUT FYDDAI'N CAEL FY ASESU?

| | Disgrifiad | Gwerth |
|---|---|---|
| **Uned 1** | **Arholiad** 2 awr | 50% |
| **Uned 2** | **Asesiad Ymarferol** ar eich gwaith ymarferol, ble byddwch yn cael eich asesu mewn tri gweithgaredd chwaraeon. Un mewn camp ar gyfer unigolyn, un gamp ar gyfer tîm ac un arall. Bydd un gweithgaredd yn brif weithgaredd fydd â rhaglen ffitrwydd personol yn gysylltiedig â'r gweithgaredd. | 50% |

## BETH FYDD YN DIGWYDD AR ÔL Y CWRS YMA?

Ar ôl Blwyddyn 11, gallwch fynd ymlaen i wneud Lefel A mewn Addysg Gorfforol, neu wneud cwrs BTEC Gwyddor Chwaraeon.

## SYNIADAU AM SWYDDI

- Gweithio mewn Canolfan Hamdden neu Swyddi Hamdden
- Athro/Athrawes
- Hyfforddi Chwaraeon
- Swyddog 5x60
- Swyddi mewn Canolfan Awyr Agored

## AM FWY O WYBODAETH?

Gofynnwch i'ch Athrawon, Cynghorydd Gyrfa neu ymweld â'r wefan www.cbac.co.uk

# ADEILADU'R AMGYLCHEDD ADEILEDIG (DYFARNIAD LEFEL 1/2)

## LLEOLIAD: YSGOL BOTWNNOG

## BETH FYDDAI'N DDYSGU?

Mae Dyfarniadau Lefel 1/2 CBAC mewn Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig yn cynnig profiad dysgu sy'n rhoi ffocws dysgu i ddisgyblion flwyddyn 10 a 11 drwy ddysgu cymhwysol h.y. meithrin a chymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth drwy dasgau pwrpasol a bennir o fewn cyd-destunau sector neu bwnc sy'n cynnwys llawer o nodweddion gwaith go iawn. Mae'r gymhwyster yma gywerth â TGAU.

## SUT FYDDAI'N DYSGU?

**Uned 1**: Diogelwch a Diogeledd ym maes Adeiladu. Yn yr uned hon a asesir drwy arholiad, byddwch yn astudio natur a phwysigrwydd diogelwch a diogeledd yn y diwydiant adeiladu. Mae diffoddyddion tân, arwyddion diogelwch, rheoliadau a'r gyfraith, peryglon, risgiau a mesurau rheoli i gyd yn ymddangos fel cynnwys. Bydd angen i chi gymhwyso eich gwybodaeth am ddiogelwch a diogeledd i sefyllfaoedd adeiladu realistig.

**Uned 2**: Sgiliau Adeiladu Ymarferol Yn yr uned asesiad di-arholiad hon byddwch yn datblygu tri sgìl adeiladu ar wahân. Fel rhan o'ch asesiad, byddwch yn cwblhau tasgau adeiladu a fydd yn dangos eich galluoedd yn y sgiliau hyn.

**Uned 3**: Cynllunio Projectau Adeiladu Yn yr uned asesiad di-arholiad hon byddwch yn astudio gwahanol gamau'r broses cynllunio project, y mathau o swyddi sy'n bodoli o fewn y diwydiant a sut caiff gwaith adeiladu ei gostio.

## SUT FYDDAI'N CAEL FY ASESU?

| | Disgrifiad | Gwerth |
|---|---|---|
| **Uned 1** | **Asesiad allanol (arholiad):** Diogelwch a diogeledd ym maes adeiladu | 25% |
| **Uned 2** | **Asesiad mewnol:** Sgiliau adeiladu ymarferol | 50% |
| **Uned 3** | **Asesiad mewnol:** Cynllunio prosiectau adeiladu | 25% |

## BETH FYDD YN DIGWYDD AR ÔL Y CWRS YMA?

Gall astudio'r cwrs adeiladu'r amgylchedd adeiledig arwait at nifer o lwybrau gyrfa gwahanol – Mae'r opsiynau posib yn cynnwys astudio lefel 3 mewn adeiladu'r amgylchedd adeiledig mewn Coleg ôl 16 neu dilyn prentisiaeth efo cyflogwr o'ch dewis chi. Mae hefyd cwrs Dylunio'r amgylchedd adeiledig ar gael. Gall y cwrs yma fod o fudd i ddysgwyr sydd a diddordeb yn y maes cynllunio / dylunio / pensaer.

## SYNIADAU AM SWYDDI.

- Adeiladwr
- Gweithiwr aml grefft (tradesperson / Multiskilled)
- Llafurwr
- Gweithiwr Safle

## AM FWY O WYBODAETH?

I wybod mwy am y cwrs hwn, ewch i'r wefan yma:
www.cbac.co.uk neu chwiliwch am ***Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig CBAC*** ar y we.

# AMAETHYDDIAETH (BTEC - TYSTYSGRIF ESTYNEDIG LEFEL 2 - DWBL)

## LLEOLIAD: COLEG MEIRION DWYFOR - GLYNLLIFON

Os ydych yn dilyn y cwrs yma bydd rhaid i chi deithio i Glynllifon am un pnawn bob wythnos. Mae yna nifer cyfyngedig o lefydd ar gael ar y cwrs yma.

## BETH FYDDAI'N EI DDYSGU?

- Hwsmonaeth anifeiliaid;
- Hwsmonaeth cnydau;
- Sgiliau trin anifeiliaid er enghraifft cynorthwyo i roi meddyginiaethau, dewis stoc a chneifio;
- Sgiliau stad er enghraifft ffensio, plygu gwrych a chodi waliau cerrig;
- Materion iechyd a diogelwch yn y gweithle;
- Profiadau o weithio yn y diwydiant amaethyddol.

## SUT FYDDAI'N DYSGU?

Mae'r cwrs yn bartneriaeth rhwng ysgolion uwchradd Dwyfor a Choleg Meirion Dwyfor, Glynllifon ac yn cyfateb i 2 TGAU.
Byddwch yn treulio prynhawn llawn ar safle Glynllifon.
Bydd eich ysgol yn trefnu cludiant am ddim i chi i ac o Glynllifon.
Mae'r cwrs yn gymysgedd o dasgau ymarferol ac ystafell ddosbarth a byddwch yn cael cyfle i baratoi ac ymarfer eich sgiliau cyn i chi gael eich asesu.
Bydd gofyniad i wneud rhywfaint o waith cwrs tu allan i'r Coleg.

## BETH FYDDAF EI ANGEN?

Ymroddiad a disgyblaeth i weithio'n gydwybodol a gofalus mewn amgylchedd gweithle
Offer amddiffynnol personol (esgidiau diogelwch, oferôls a dillad glaw)

## SUT FYDDAI'N CAEL FY ASESU?

Byddwch yn cynhyrchu gwaith a asesir gan eich tiwtor cwrs a'r bwrdd arholi.

## BETH FYDD YN DIGWYDD AR ÔL Y CWRS YMA?

Ar ddiwedd y cwrs, cewch ddewis un o'r llwybrau canlynol:-

- Dilyn cwrs llawn amser Lefel 2 neu Lefel 3 Amaethyddiaeth ar safle Glynllifon.
- Dilyn un o amrywiaeth o gyrsiau academaidd neu alwedigaethol yn un o safleoedd Grŵp Llandrillo Menai.
- Gweithio yn y diwydiant Amaethyddiaeth

## SYNIADAU AM SWYDDI

- Rheolwr Fferm
- Gweithiwr Fferm
- Ymgynghorwr Amaethyddol
- Contractwr Amaethyddol

## AM FWY O WYBODAETH?

Cysylltwch â'r Coleg ym Mhwllheli 01758 701385 neu gwefan www.edexcel.com

# ASTUDIAETHAU CREFYDDOL (TGAU)

## LLEOLIAD: YSGOL BOTWNNOG

## BETH FYDDAI'N EI DDYSGU?

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i ddysgu:

- am rôl crefydd o fewn y gymuned leol, cenedlaethol a byd-eang mewn dull ymchwilgar a beirniadol;
- am berthnasedd crefydd i'n byd o'n cwmpas mewn cyfnod sy'n prysur ddatblygu'n amlddiwylliannol a chrefyddol;
- sut i ymestyn eich datblygiad moesol ac ysbrydol wrth feddwl am werthoedd crefyddol yng nghyd-destun meddygol, amgylcheddol a chymdeithasol;
- datblygu eich gwerthoedd a'ch barn eich hun yng ngoleuni'r hyn a ddysgwyd.

Byddwn yn canolbwyntio ar gredoau a dysgeidiaeth grefyddol o safbwynt dwy grefydd wahanol (Cristnogaeth ac Iddewiaeth yn bennaf) am e.e. bywyd a marwolaeth, daioni a drygioni, perthnasoedd a hawliau dynol – themâu a phroblemau sy'n berthnasol i fywydau pobl ifanc heddiw.

## SUT FYDDAI'N DYSGU?

Mae'r cwrs yn gymysgedd o dasgau dosbarth a phrofion cyson. Bydd defnydd helaeth o'r sgiliau allweddol fel cyfathrebu, datrys problemau, technoleg gwybodaeth, gweithio gydag eraill a gweithio'n annibynnol yn rhan annatod o'r amrywiol dasgau.

## SUT FYDDAI'N CAEL FY ASESU?

| | Disgrifiad | Gwerth |
|---|---|---|
| **Uned 1** | **Arholiad:** Crefydd a Themâu Athronyddol **ar ddiwedd blwyddyn 10** | 50% |
| **Uned 2** | **Arholiad**: Crefydd a Themâu Moesegol **ar ddiwedd blwyddyn 11** | 50% |

Ni fydd dyfarniad cwrs llawn tan ddiwedd blwyddyn 11.
Nid oes unrhyw waith cwrs - dibynna'r cyfan ar yr arholiadau.

## BETH FYDD YN DIGWYDD AR ÔL Y CWRS YMA?

Gallwch ddilyn cwrs Lefel AS/A mewn Astudiaethau Crefyddol yng Ngholeg Meirion Dwyfor neu gyfrannu at fodiwl o fewn cwrs Astudiaeth Plentyndod/ Blynyddoedd cynnar. Bydd eich Cynghorydd Gyrfa yn gallu eich helpu i wneud y dewis pan fyddwch chi'n gadael yr ysgol.

## SYNIADAU AM SWYDDI.

- Gwleidydd/Newyddiadurwr
- Y Cyfryngau
- Marchnata
- Nyrs/Meddyg
- Yr Heddlu neu'r Gyfraith
- Gweithiwr Cymdeithasol neu gwnsela
- Dysgu

## AM FWY O WYBODAETH?

Gofynnwch i'ch Athrawon, Cynghorydd Gyrfa neu ymweld â'r wefan [www.cbac.co.uk](http://www.cbac.co.uk)

# BUSNES (TGAU)

## LLEOLIAD: YSGOL BOTWNNOG

## BETH FYDDAI'N EI DDYSGU?

Mae'r cynnwys yn cael ei gyflwyno mewn chwe testun:

- Gweithgaredd busnes - menter, cynllunio, nodau ac amcanion, perchnogaeth, twf, lleoliad;
- Dylanwadau ar fusnes - technolegol, moesegol, amgylcheddol, economaidd, globaleiddio, deddfwriaeth;
- Gweithrediadau busnes - cynhyrchu, ansawdd, gwerthu, cadwyn cyflenwi;
- Cyllid - Ffynonellau cyllid, refeniw a chostau, cyfrifon elw a cholled, llif arian;
- Marchnata - adnabod a deall cwsmeriaid, ymchwil marchnata, cynnyrch, pris, hyrwyddo;
- Adnoddau dynol - recriwtio, hyfforddiant, cymhelliant, strwythurau trefniadaethol.

## SUT FYDDAI'N DYSGU?

- datblygu fy ngwybodaeth o'r maes ar ffurf nodiadau, ymarferion a phrofion;
- edrych ar sut mae gwahanol fathau o fusnesau yn cael eu rhedeg;

## SUT FYDDAI'N CAEL FY ASESU?

Mae hwn yn gymhwyster llinol gyda dwy arholiad ar ddiwedd blwyddyn 11 yn unig. Bydd o leiaf 10% o gyfanswm y marciau sydd ar gael yn defnyddio ystod o sgiliau mathemategol.

| | Disgrifiad | Gwerth |
|---|---|---|
| **Uned 1** | **Arholiad:** Byd Busnes –: Cymysgedd o atebion byr a chwestiynau strwythuredig | 62.5% |
| **Uned 2** | **Arholiad**: Canfyddiadau Busnes - Cwestiynau ymateb i ddata | 37.5% |

## BETH FYDD YN DIGWYDD AR ÔL Y CWRS YMA?

Ar ôl Blwyddyn 11 gelli barhau i astudio cwrs Busnes pellach o'r dewisiadau sydd ar gael yn y Coleg.

## SYNIADAU AM SWYDDI

- Rhedeg eich busnes eich hun
- Ymgynghorydd busnes
- Gweinyddiaeth
- Rheolaeth
- Cyfrifydd
- Gweithio mewn diwydiannau amrywiol
- Bancio neu Yswiriant
- Cynorthwywr Gwerthu

## AM FWY O WYBODAETH?

Gofynnwch i'ch Athrawon, Cynghorydd Gyrfa neu ymweld â'r wefan [www.cbac.co.uk](http://www.cbac.co.uk)

# BWYD A MAETH (TGAU)

## LLEOLIAD: YSGOL BOTWNNOG

## BETH FYDDAF YN EI DDYSGU?

Cwrs ydyw sydd wedi ei gynllunio yn y fath fodd fel bod pob disgybl yn cael cyflwyniad i'r diwydiant bwyd.

## SUT Y BYDDAF YN DYSGU?

Bydd cyfuniad o ddulliau dysgu

- **Uned 1 -** Fe fydd angen astudio'r pynciau canlynol yn ystod y gwersi theori - sgiliau coginio diogel; technegau coginio; nodweddion cemegol, maeth a swyddogaethau bwyd; diet, iechyd a maetheg; prosesau cynhyrchu; diogelwch bwyd - prosesu a storio; dylanwadau traddodiadau coginio ar fwyd, bwyd fel nwydd ee cig, wyau, ffrwythau a llysiau, grawnfwydydd.
- **Uned 2 -** Mae gwaith ymarferol yn rhan hanfodol o'r cwrs lle bydd pob disgybl goginio yn rheolaidd er mwyn meistroli'r sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer arlwyo. Hefyd bydd profion gwyddoniaeth sy'n ymwneud a gwyddor bwyd.

## SUT Y BYDDAF YN CAEL FY ASESU?

| | Disgrifiad | Gwerth |
|---|---|---|
| **Uned 1** | **Arholiad**: 1 papur 1½ awr | 40% |
| **Uned 2** | **Asesiad Ymarferol** - dwy dasg:<br>• Asesiad Ymchwil Bwyd (20%)<br>• Asesiad Paratoi Bwyd (40%) | 60% |

## BETH SY'N DIGWYDD AR ÔL Y CWRS HWN?

Mae'r fanyleb hon yn rhoi sail addas ar gyfer astudio pellach yn 16+ oed sy'n cynnig dilyniant i gyrsiau academaidd ac i amrywiol gyrsiau galwedigaethol. Y mae'n rhoi cyfleoedd dilyniant i gymwysterau eraill, o fewn yr un maes neu un cysylltiedig.

## SYNIADAU AM SWYDDI

Ceir cyfleoedd ym maes gwyddor bwyd e.e Swyddog Iechyd i Asiantaeth Safonau Bwyd, technegydd bwyd mewn diwydiant, gweithio yn y diwydiant lletygarwch, rheoli bwyty. Mae'r swyddi'n amrywio o rai nad oes angen cymwysterau ffurfiol i'w gwneud i rai lle y mae angen hyfforddiant neu gymhwyster hyd at lefel gradd i'w gwneud.

## AM FWY O WYBODAETH?

Gofynnwch i'ch Athrawon, Cynghorydd Gyrfa neu ymweld â'r wefan [www.cbac.co.uk](http://www.cbac.co.uk)

# CELF A DYLUNIO (TGAU)

## LLEOLIAD: YSGOL BOTWNNOG

## BETH FYDDAI’N EI DDYSGU?

Bydd y cwrs hwn yn dy helpu i ddysgu:

- sgiliau mwy heriol yn y meysydd dau ac/neu dri dimensiwn, traddodiadol, cyfryngau a thechnoleg newydd;
- sut y caiff syniadau, teimladau ac ystyron eu cyfleu mewn delweddau ac arteffactau trwy gelf a dylunio;
- sut mae gwybodaeth a dealltwriaeth o waith eraill yn gallu datblygu ac ymestyn meddwl a chyfarwyddo ei gwaith eu hunain;
- deall delweddau ac arteffactau mewn cyd-destun hanesyddol, galwedigaethol a diwylliannol;
- ymchwilio, dadansoddi, arbrofi a dehongli, dealltwriaeth esthetig a sgiliau beirniadol.

## SUT FYDDAI’N DYSGU?

Bydd y sgiliau canlynol yn cael eu datblygu yn ystod y cwrs.

- Dealltwriaeth feirniadol,
- Gwneud Creadigol,
- Cofnodi Myfyriol,
- Cyflwyno Personol.

## SUT FYDDAI’N CAEL FY ASESU?

Bydd y disgyblion yn cael eu hasesu mewn 4 sgil fel a ganlyn: Dealltwriaeth Feirniadol (25%), Gwneud Creadigol (25%), Cofnodi Myfyriol (25%), Cyflwyno Personol (25%).

| | Disgrifiad | Gwerth |
|---|---|---|
| **Uned 1** | **Portffolio gwaith cwrs** | 60% |
| **Uned 2** | **Asesiad Ymarferol** wedi ei osod yn allanol:<br>• Rhan 1 - Cyfnod astudiaeth baratoadol<br>• Rhan 2 - Cyfnod o 10 awr o waith dwys a manwl | 40% |

## BETH FYDD YN DIGWYDD AR ÔL Y CWRS YMA?

Ar ôl blwyddyn 11, byddwch yn gallu dilyn cwrs AS (yna A2) mewn Celf a Dylunio neu gwrs Diploma. Bydd hyn yn eich darparu i wneud gradd yn y Brifysgol mewn Celf a Dylunio, Hanes Celf neu gyrsiau fel e.e. Pensaernïaeth.

## SYNIADAU AM SWYDDI

- Hysbysebu, Cynllunio Gwefannau/Ffasiwn/Graffeg/Theatr, Pensaernïaeth, Animeiddio, Therapi Celf, Swyddog Celf Cymunedol

## AM FWY O WYBODAETH?

Gofynnwch i’ch Athrawon, Cynghorydd Gyrfa neu ymweld â’r wefan [www.cbac.co.uk](http://www.cbac.co.uk)

# CERDDORIAETH (TGAU)

## LLEOLIAD: YSGOL BOTWNNOG

### BETH FYDDAI'N EI DDYSGU?

Bydd y cwrs hwn yn dy helpu i ddysgu:

- datblygu dy sgiliau, dy ddealltwriaeth ac ehangu dy fwynhad o wahanol fathau o gerddoriaeth;
- dy allu i gyfathrebu mewn modd mynegiannol a chreadigol;
- datblygu dy hunan hyder wrth berfformio gan arddangos dy allu i weithio ar ben dy hun ac efo eraill;
- sgiliau creu, datblygu, dadansoddi a gwerthuso syniadau cerddorol.

### SUT FYDDAI'N DYSGU?

Mae'r cwrs yn gymysgedd o dasgau dosbarth ac ymarferol. Byddi'n cael cyfle i baratoi ac ymarfer dy sgiliau cyn i ti gael dy asesu fel dy fod yn gwybod ac yn deall beth sy'n rhaid i ti ei wneud. Rhennir y cwrs i bedwar maes astudiaeth:

- Ffurfiau a dyfeisiau cerddorol;
- Cerddoriaeth ar gyfer Ensemble (grŵp);
- Cerddoriaeth Ffilm;
- Cerddoriaeth Boblogaidd (Pop/ Roc ayb).

### SUT FYDDAI'N CAEL FY ASESU?

| | Disgrifiad | Gwerth |
|---|---|---|
| **Uned 1 Perfformio** | **Adran A -** Bydd angen perfformio lleiafswm o ddau ddarn o gerddoriaeth, gan sicrhau bod un ohonynt yn ddarn ar gyfer ensemble. (30%)<br>**Adran B -** Nodiadau ar gyfer rhaglen yn seiliedig ar un o'r darnau a berfformir. (5%) | 35% |
| **Uned 2 Cyfansoddi** | **Adran A -** Dau gyfansoddiad gwahanol efo un o'r darnau efo cysylltiadau amlwg i'r meysydd astudio. (30%)<br>**Adran B -** Gwerthusiad o'r darnau sydd efo cysylltiadau. (5%) | 35% |
| **Uned 3 Gwerthuso** | **Arholiad** ysgrifenedig gwrando sydd yn para awr. | 30% |

### BETH FYDD YN DIGWYDD AR ÔL Y CWRS YMA?

Ar ôl Blwyddyn 11, gellir dilyn cwrs lefel A/AS Cerddoriaeth neu ddewis astudio Cerddoriaeth Technoleg fel Lefel A/AS/ BTEC. Ceir hefyd arholiadau allanol ar gyfer offerynnau a lleisiau yn unig. Ond, os nad wyt ti awydd dal ati gyda Cherddoriaeth, mi allet ti ddewis cwrs arall addas, gan ddibynnu beth hoffet ti wneud nesaf. Mi fyddi di yn gweld bod Cerddoriaeth yn bwnc defnyddiol iawn ta pa yrfa rwyt am ddilyn. Bydd dy Gynghorydd Gyrfa yn gallu dy helpu i wneud dy ddewis pan fyddi di'n gadael yr ysgol.

### SYNIADAU AM SWYDDI.

- Swyddi dysgu addysg Gynradd ac Uwchradd
- Athro Offerynnol neu lais
- Y Cyfryngau - Cynhyrchu neu gyflwyno Teledu, Radio neu'r Theatr
- Perfformio fel cerddor proffesiynol clasurol, mewn sioeau cerdd neu'r byd pop
- Cyfansoddwr ffilm, teledu, caneuon a gemau cyfrifiadurol
- Nyrsio a gofal – Therapi Cerdd
- Gweinyddu, twristiaeth a swyddogion adloniant

## AM FWY O WYBODAETH?

Gofynnwch i'ch Athrawon, Cynghorydd Gyrfa neu ymweld â'r wefan www.cbac.co.uk

# CYNHYRCHU CYFRYNGAU CREADIGOL DIGIDOL (BTEC - TYSTYSGRIF GYNTAF LEFEL 2 - CYWERTH A 2 TGAU A*-C)

**Lleoliad: COLEG MEIRION DWYFOR - PWLLHELI**

Os ydych yn dilyn y cwrs yma bydd rhaid i chi deithio ar fws o Fotwnnog i Bwllheli am un pnawn bob wythnos - byddwch yn dychwelyd adref ar fysus y coleg am 4:30. Mae yna nifer cyfyngedig o lefydd ar gael ar y cwrs yma.

## BETH FYDDAI'N EI DDYSGU?

Mae unedau'r cwrs yma yn cynnwys:

- Deall y Sector Cyfryngau a'u Cynulleidfaoedd;
- Cynllunio a Chyflwyno Cynnyrch Digidol;
- Cyhoeddi Cynnyrch Digidol;
- Golygu Digidol ar gyfer Delweddau symudol;
- Ffotograffiaeth Ddigidol ar gyfer Cynnyrch Cyfryngol;
- Dylunio Graffeg ar gyfer Cynnyrch Cyfryngol.

## SUT FYDDAI'N DYSGU?

Byddwch yn ymchwilio i sut mae'r sector ddigidol yn gweithio, a sut i greu cynnyrch digidol, drwy gyflwyno syniadau i ddatrus problemau. Byddwch ym creu ffilm fer, animeiddiad, cylchgrawn rhyngweithiol, sioe radio a dysgu sut i greu 'blog'. Bydd y gwaith yn cael ei greu drwy dasgau ymarferol, gan ddefnyddio offer ac adnoddau a ddefnyddir yn y diwydiant.
Bydd y gwaith yn cael ei greu drwy dasgau ymarferol, gan ddefnyddio offer ac adnoddau a ddefnyddir yn y diwydiant.

## SUT FYDDAI'N CAEL FY ASESU?

Mae'r gwaith yn cael ei raddio fel: Llwyddiant/Teilyngdod/Rhagoriaeth yn ôl lefel y gwaith ymarferol sydd yn cael ei greu. Mae dwy uned o'r cymhwyster yn cynnwys dau arholiad allanol.

## BETH FYDD YN DIGWYDD AR ÔL Y CWRS YMA?

Os ydych wedi pasio'r lefel 2, gallwch symud ymlaen i gwrs BTEC lefel 3 mewn Celf a Dylunio, neu'r Cyfryngau, neu fynd ymlaen i wneud Lefel AS mewn Ffotograffiaeth; Celf a Dylunio neu Ddylunio a Thechnoleg.

## SYNIADAU AM SWYDDI

Swyddi mewn teledu neu ffilm, Swyddi radio, Datrblygwrd gemau digidol, Dyluneydd graffeg, Dylunydd y we, Neywddiadurwr, Ffotograffydd

## AM FWY O WYBODAETH?

Cysylltwch â'r Coleg ym Mhwllheli 01758 701385 neu wefan www.edexcel.com

# DAEARYDDIAETH (TGAU)

## LLEOLIAD: YSGOL BOTWNNOG

## BETH FYDDAI'N EI DDYSGU?

Bydd y cwrs hwn yn dy helpu:

- i ddysgu am gysyniadau daearyddol gan gynnwys lleoliad, rhyngddibyniaeth, rhyngweithiad amgylcheddol a phrosesau dynol a ffisegol;
- i ymestyn dy ddeallusrwydd o destunau daearyddol gan gynnwys newid hinsawdd, newidiadau mewn poblogaeth a thectonig platiau;
- atgyfnerthu sgiliau gwaith maes, rhifedd, llythrennedd, TGCh, cyfathrebu a gweithio fel unigolyn, pâr neu fel rhan o grŵp;
- deall beth sy'n gwneud dinesydd da a sut i gyfrannu at gynaladwyedd y Ddaear.

## SUT FYDDAI'N DYSGU?

Bydd y cwrs yn datblygu dy wybodaeth a deallusrwydd o faterion daearyddol, yna byddet yn cael cyfle i ymarfer drwy ddwyn i gof.

## SUT FYDDAI'N CAEL FY ASESU?

| | Disgrifiad | Gwerth |
|---|---|---|
| **Uned 1** | **Arholiad**: Newid amgylcheddau dynol a ffisegol - 1.5 awr | 40% |
| **Uned 2** | **Arholiad**: Materion datblygiad ac amgylcheddol - 1.5 awr | 40% |
| **Uned 3** | **Asesiad di-arholiad:** Ymholiad Gwaith Maes - 2.5 awr | 20% |

## BETH FYDD YN DIGWYDD AR ÔL Y CWRS YMA?

Ar ôl Blwyddyn 11, gelli fynd ymlaen i ddilyn cwrs Lefel AS/A mewn sefydliad Addysg Uwch. Bydd hefyd wedi rhoi cefndir da i ti fynd ymlaen i ddilyn cwrs mewn Hamdden a Thwristiaeth. Bydd dy Gynghorydd Gyrfa yn gallu dy helpu i wneud dy ddewis pan fyddi di'n gadael yr ysgol.

## SYNIADAU AM SWYDDI

- Pensaer Tirwedd
- Swyddog Ailgylchu
- Athro / Athrawes Daearyddiaeth
- Rheolwr Cefn Gwlad / Cadwraeth
- Warden Parc Cenedlaethol
- Daearegwr

## AM FWY O WYBODAETH?

Gofynnwch i'ch Athrawon, Cynghorydd Gyrfa neu ymweld â'r wefan www.cbac.co.uk

# DRAMA (TGAU)

## LLEOLIAD: YSGOL BOTWNNOG

## BETH FYDDAI'N EI DDYSGU?

Bydd y cwrs hwn yn dy helpu i ddysgu:

- sut i gydweithio efo eraill mewn grwpiau;
- sut i greu darn i'w berfformio ar lwyfan o ddim: drwy broses o ymarferion yn ymwneud efo datblygu sgiliau llais, symudiadau a phwysigrwydd presenoldeb ar lwyfan;
- sut i gyflwyno perfformiad o sgript gan awdur proffesiynol ar lwyfan;
- sut i werthuso gwaith perfformio eich hunain a pherfformiadau gan gwmnïau drama proffesiynol;
- sut i lwyfannu perfformiad trwy astudio elfennau technegol fel cyfarwyddo, gwisgoedd, goleuadau, setiau, sain a.y.b.;
- sut i werthfawrogi ac ysgrifennu am ddramâu sydd wedi cael eu cyhoeddi.

## SUT FYDDAI'N DYSGU?

Mae'r cwrs yn gymysgedd o dasgau ysgrifennu ac ymarferol. Byddi yn gweithio mewn cymysgedd o sefyllfaoedd unigol, pâr a grŵp. Byddi'n cael cyfle i baratoi ac ymarfer dy sgiliau cyn i ti gael dy asesu fel dy fod yn gwybod ac yn deall beth sy'n rhaid i ti ei wneud. Weithiau cyn arholiad actio byddi yn gorfod ymarfer ar ôl ysgol neu ar benwythnosau.

## SUT FYDDAI'N CAEL FY ASESU?

| | Disgrifiad | Gwerth |
|---|---|---|
| **Uned 1** | **Dyfeisio Theatr** - Gweithio mewn grwpiau i ddyfeisio, datblygu a pherfformio darn o theatr wedi'i dyfeisio yn seiliedig naill ai ar waith ymarferydd theatr neu genre mewn ymateb i ysgogiad a bennir gan CBAC. Cwblhau gwerthusiad ysgrifenedig o'r perfformiad wedi ei ddyfeisio o dan oruchwyliaeth ffurfiol. | 40% |
| **Uned 2** | **Perfformio Theatr** - Gweithio mewn grwpiau i astudio dau ddarn 10 munud o destun perfformiad ac i berfformio darn o'r ddrama. | 20% |
| **Uned 3** | **Arholiad: Dehongli Theatr** - Cyfres o gwestiynau ar destun gosod ac adolygiad o gynhyrchiad byw a welir yn ystod y cwrs. | 40% |

## BETH FYDD YN DIGWYDD AR ÔL Y CWRS YMA?

Ar ôl Blwyddyn 11 gelli astudio Lefel A Drama yng Ngholeg Meirion/Dwyfor neu ddilyn y cwrs "Performing Arts" yng Ngholeg Menai. Fedri di fynd ymlaen i Golegau Cerdd a Drama yn 18 oed.

## SYNIADAU AM SWYDDI

- Gyrfa mewn perfformio fel actio, canu neu ddawnsio
- Gyrfa efo cwmni teledu efo sain, dyn camera, cynhyrchu
- Gyrfa mewn theatr leol
- Athro neu Ddarlithydd Drama
- Gwaith cyflwyno ar y teledu a.y.b.

## AM FWY O WYBODAETH?

Gofynnwch i'ch Athrawon, Cynghorydd Gyrfa neu ymweld â'r wefan [www.cbac.co.uk](http://www.cbac.co.uk)

# DYLUNIO A THECHNOLEG – DYLUNIO CYNNYRCH (TGAU)

## LLEOLIAD: YSGOL BOTWNNOG

## BETH FYDDAI'N EI DDYSGU?

Bydd y cwrs hwn yn dy helpu i ddysgu am :

- ddatblygu, cynllunio a chyfleu syniadau;
- ddadansoddi cynnyrch;
- gynaliadwyedd a materion deddfwriaethol;
- gweithio gydag offer, cyfarpar, defnyddiau a chydrannau i gynhyrchu cynhyrchion o safon uchel;
- gweithgynhyrchu masnachol;
- gwerthuso prosesau a chynhyrchion;
- defnyddiau a chydrannau, systemau a phrosesau.

## SUT FYDDAI'N DYSGU?

Mae'r cwrs yn gymysgedd o dasgau ymchwil, theori ac ymarferol. Mae'r cwrs yn academaidd ac mae datblygu sgiliau ymchwilio a theori wedi'i wreiddio'n ddwfn ym mlwyddyn 10 - Nid yw llawer o ddisgyblion wedi disgwyl hyn yn y gorffennol. Gwiriwch hyn cyn gwneud eich dewis cwrs gan fod ffocws sylweddol ar sgiliau llythrennedd yn y flwyddyn cyntaf o'r cwrs. Byddi'n cael cyfle i baratoi ac ymarfer dy sgiliau ymarferol drwy wneud amryw o dasgau 'dylunio a gwneud' bychain cyn i ti wneud asesiadau dan reolaeth ym mlwyddyn 11.

## SUT FYDDAI'N CAEL FY ASESU?

| | Disgrifiad | Gwerth |
|---|---|---|
| **Uned 1** | **Arholiad** ysgrifenedig 2 awr. | 50% |
| **Uned 2** | **Asesiad di-arholiad** - Tasg dan reolaeth ym mlwyddyn 11<br>Mi fyddi yn dewis un briff allan o dri a fydd yn cael eu gosod gan CBAC. Bydd y gwaith yn cael ei asesu gan dy athro ac yna gan safonwr allanol. | 50% |

## BETH FYDD YN DIGWYDD AR ÔL Y CWRS YMA?

Ar ôl Blwyddyn 11, gelli ddilyn cwrs lefel A mewn Dylunio a Thechnoleg yng Ngholeg Meirion Dwyfor neu mi allet ddewis cwrs arall addas – NVQ neu brentisiaeth mewn Adeiladwaith neu Beirianneg. Os nad wyt ti awydd dal ati gyda Dylunio a Thechnoleg mi fydd dy Gynghorydd Gyrfa yn gallu dy helpu i wneud dy ddewis pan fyddi di'n gadael yr ysgol.

## SYNIADAU AM SWYDDI

- Diwydiant gweithgynhyrchu - datblygu, cynhyrchu a phrofi nwyddau sydd wedi cael eu gwneud o blastigau, metel, cerameg, gwydr, clai, pren a thecstilau.
- Diwydiant peirianneg - fel trydanwr neu fel technegydd/peiriannydd yn y diwydiannau peirianneg fecanyddol, sifil, electronig neu gemegol.
- Syrfewyr eiddo - prisio, costio, rheoli, marchnata a chynnal a chadw tir, adeiladau ac eiddo arall.
- Saer coed ac asiedydd - paratoi a chydosod eitemau fel grisiau a drysau i'w defnyddio ar safle adeiladu. Bydd seiri coed safle yn eu gosod i mewn i'r adeiladau ac yn gwneud gwaith pren arall ar y safle.
- Mewn addysg: os ydych wedi mwynhau astudio'r pwnc, beth am ddysgu'r pwnc i'r genhedlaeth nesaf?

## AM FWY O WYBODAETH?

Gofynnwch i'ch Athrawon, Cynghorydd Gyrfa neu ymweld â'r wefan www.cbac.co.uk

# DYLUNIO A THECHNOLEG – FFASIWN A THECSTILAU (TGAU)

## LLEOLIAD: YSGOL BOTWNNOG

## BETH FYDDAI'N EI DDYSGU?

Bydd y cwrs hwn yn dy helpu i ddysgu am :

- ddatblygu, cynllunio a chyfleu syniadau;
- ddadansoddi cynnyrch;
- gynaliadwyedd a materion deddfwriaethol;
- gweithio gydag offer, cyfarpar, defnyddiau a chydrannau i gynhyrchu cynhyrchion o safon uchel;
- gweithgynhyrchu masnachol;
- gwerthuso prosesau a chynhyrchion;
- defnyddiau a chydrannau, systemau a phrosesau.

## SUT FYDDAI'N DYSGU?

Mae'r cwrs yn gymysgedd o dasgau dosbarth ac ymarferol. Byddi'n cael cyfle i baratoi ac ymarfer dy sgiliau cyn i ti wneud asesiadau dan reolaeth ym mlwyddyn 11.

## SUT FYDDAI'N CAEL FY ASESU?

| | Disgrifiad | Gwerth |
|---|---|---|
| **Uned 1** | **Arholiad** ysgrifenedig 2 awr. | 50% |
| **Uned 2** | **Asesiad di-arholiad** - Tasg dan reolaeth ym mlwyddyn 11<br>Mi fyddi yn dewis un briff allan o dri a fydd yn cael eu gosod gan CBAC. Bydd y gwaith yn cael ei asesu gan dy athro ac yna gan safonwr allanol. | 50% |

## BETH FYDD YN DIGWYDD AR ÔL Y CWRS YMA?

Ar ôl Blwyddyn gelli ddilyn cwrs lefel A mewn Dylunio a Thechnoleg neu Gelf a Dylunio yng Ngholeg Meirion Dwyfor neu mi allet ddewis cwrs galwedigaethol llawn amser. Os nad wyt ti awydd dal ati gyda Dylunio a Thechnoleg mi fydd dy Gynghorydd Gyrfa yn gallu dy helpu i wneud dy ddewis pan fyddi di'n gadael yr ysgol.

## SYNIADAU AM SWYDDI

- Dylunydd Ffasiwn-
- Dylunydd Mewnol
- Cynllunydd Personol
- Dylunydd Gweuwaith
- Athro/Athrawes
- Swyddog Rheoli Ansawdd
- Gwerthwr
- Peiriannydd Gwnio
- Prynwr Tecstilau / Ffasiwn
- Dylunydd Tecstilau
- Dylunydd Gwisgoedd

## AM FWY O WYBODAETH?

Gofynnwch i'ch Athrawon, Cynghorydd Gyrfa neu ymweld â'r wefan www.cbac.co.uk

# FFRANGEG (TGAU)

## BETH FYDDAI'N EI DDYSGU?

Bydd y cwrs yn rhoi cyfle i ti ddysgu am y canlynol:

- Hunaniaeth a diwylliant (Bywyd personol a chymdeithasol )
- Cymru a'r Byd (Y gymuned leol , fy nhref, yr amgylchedd, Ffrainc/ gwyliau a gwledydd lle siaredir Ffrangeg)
- Addysg, Cyflogaeth a'r Dyfodol (ysgol, profiad gwaith, swyddi a gyrfaoedd yn y dyfodol)

## SUT FYDDAI'N DYSGU?

Cynigir y cwrs yn yr ysgol dros gyfnod o 2-3 gwers wythnosol. Gwneir pob ymdrech i annog y dysgwyr i arbrofi'n hwyliog gyda gwahanol ddulliau o ddeall a chofio geirfa/ patrymau brawddegu. Bydd hyn o fantais fawr i ddysgu ieithoedd eraill yn ddiweddarach hefyd. Datblygir y sgiliau canlynol yn ystod y cwrs: Cyfathrebu, Datrys Problemau, TGCh, Gweithio gydag eraill, Gwella dy berfformiad a dysgu dy hun.

## SUT FYDDAI'N CAEL FY ASESU?

| | Disgrifiad | Gwerth |
|---|---|---|
| **Uned 1** | **Asesiad Llafar**: Sylfaenol neu Uwch<br>(3 tasg - un chwarae rôl, un drafodaeth am lun ar gerdyn ac un sgwrs). | 25% |
| **Uned 2** | **Arholiad Ysgrifenedig:** Gwrando (Sylfaenol neu Uwch). | 25% |
| **Uned 3** | **Arholiad Ysgrifenedig:** Darllen (Sylfaenol neu Uwch). | 25% |
| **Uned 4** | **Arholiad Ysgrifenedig:** Ysgrifennu (Sylfaenol neu Uwch). | 25% |

## BETH FYDD YN DIGWYDD AR ÔL Y CWRS YMA?

Byddi'n gallu dilyn cwrs AS (ac yna A2) mewn Ffrangeg. Bydd hyn yn dy baratoi i wneud gradd yn y brifysgol mewn Ffrangeg neu Ffrangeg a phwnc arall. (Cofiwch fod rhai prifysgolion yn Lloegr yn gofyn am radd TGAU mewn Iaith Dramor Fodern ar gyfer cyrsiau o bob math).

## SYNIADAU AM SWYDDI

Mae ieithoedd yn agor drysau!! Ystyrir ieithoedd yn fantais ar gyfer nifer gynyddol o bynciau a swyddi. Dyma rhai meysydd amlwg:

Newyddiaduraeth, Y Cyfryngau, Twristiaeth a Theithio, Meddygaeth a Gofal Iechyd, Addysg, Busnes a Marchnata, Cyllid a Bancio, Ffasiwn, Cyfieithu (mewn telathrebu a gwasanaethau'r we), Canolfannau galw, Peirianneg, Gwerthwyr Tai, Arlwyo, Y Gyfraith…..

## AM FWY O WYBODAETH?

Gofynnwch i'ch Athrawon, Cynghorydd Gyrfa neu ymweld â'r wefan [www.cbac.co.uk](http://www.cbac.co.uk)

# GWYDDONIAETH TRIPHLYG (3 TGAU) – BYWYDEG, CEMEG, FFISEG

## LLEOLIAD: YSGOL BOTWNNOG

## BETH FYDDAI'N EI DDYSGU?

Mae mwyafrif cynnwys y cwrs yn union yr un fath a'r cwrs Gwyddoniaeth Dwbl. Bydd mwyafrif y gwaith felly yn cael ei wneud o fewn y gwersi hyn. Mae'r testunau ychwanegol, sy'n rhan o fanylebau y pynciau unigol, yn cael eu dysgu yn y gwersi Gwyddoniaeth Triphlyg. Bydd 2 Uned Bywydeg, 2 Uned Cemeg a 2 Uned Ffiseg a hefyd un asesiad ymarferol ymhob pwnc.

Gellir dilyn y cwrs ar un o ddwy haen, yr Haen Uwch (Graddau A* - D) neu'r Haen Sylfaenol (Graddau C – G), yn unol â gallu'r dysgwr. Bydd dewis y Gywyddoniaeth Triphlyg yn arwain at tair gradd TGAU.

## SUT FYDDAI'N DYSGU?

Bydd y cwrs TGAU Gwyddoniaeth Triphlyg yn dilyn cynllun a manyleb bwrdd arholi CBAC. Bydd y syniadau a gyflwynir yn cael eu datblygu dros y ddwy flynedd ac yn paratoi dysgwyr i allu dilyn cyrsiau uwch yn y gwyddorau.

## SUT FYDDAI'N CAEL FY ASESU?

| BIOLEG | **Blwyddyn** | **Disgrifiad** | **Pa bryd** | **Gwerth** |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | **10** | **Arholiad:** Bioleg 1 | Mis Mehefin | 45% |
| **Uned 2** | **11** | **Arholiad:** Bioleg 2 | Mis Mai | 45% |
| **Uned 3** | **11** | **Asesiad ymarferol** | Mis Ionawr | 10% |

| CEMEG | **Blwyddyn** | **Disgrifiad** | **Pa bryd** | **Gwerth** |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | **10** | **Arholiad:** Cemeg 1 | Mis Mehefin | 45% |
| **Uned 2** | **11** | **Arholiad:** Cemeg 2 | Mis Mai | 45% |
| **Uned 3** | **11** | **Asesiad ymarferol** | Mis Ionawr | 10% |

| FFISEG | **Blwyddyn** | **Disgrifiad** | **Pa bryd** | **Gwerth** |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | **10** | **Arholiad:** Ffiseg 1 | Mis Mehefin | 45% |
| **Uned 2** | **11** | **Arholiad:** Ffiseg 2 | Mis Mai | 45% |
| **Uned 3** | **11** | **Asesiad ymarferol** | Mis Ionawr | 10% |

## BETH FYDD YN DIGWYDD AR ÔL Y CWRS YMA?

Ar ôl Blwyddyn 11, gellir astudio'r pynciau fel Ffiseg, Cemeg a Bioleg i Safon Uwch. Neu mi ellir gwneud NVQ neu Brentisiaeth Fodern ar Lefel 2 neu 3 mewn maes perthnasol. Ar ôl hynny, mi fydd yn bosib mynd ymlaen i astudio pynciau gwyddonol mewn Prifysgol, neu weithio mewn swydd addas o dan oruchwyliaeth.

## SYNIADAU AM SWYDDI

- Peiriannydd ( Mecanyddol, Sifil, Electronig), Nyrs, Meddyg, Deintydd neu Filfeddyg, Seryddwr, Trydanwr, Ffisiotherapydd

## AM FWY O WYBODAETH?

Gofynnwch i'ch Athrawon, Cynghorydd Gyrfa neu ymweld â'r wefan www.cbac.co.uk

# HANES (TGAU)

## LLEOLIAD: YSGOL BOTWNNOG

## BETH FYDDAI'N EI DDYSGU?

Bydd y cwrs hwn yn dy helpu:

- i ddysgu am Hanes Cymru a'r persbectif ehangach - Dirwasgiad, Rhyfel ac Adferiad, 1930-1951. Hanes yn canolbwyntio ar Ewrop a'r Byd - Yr Almaen mewn cyfnod o newid - 1919-1939 a Newidiadau ym maes Trosedd a Chosb o 1500 hyd heddiw.
- i ddatblygu dy ddealltwriaeth o'r ffyrdd y cafodd y gorffennol ei bortreadu a'i dehongli. Ennill gwybodaeth a dealltwriaeth am gyfnodau ac agweddau o hanes, gan ymchwilio i arwyddocâd digwyddiadau, pobl, newidiadau a materion hanesyddol;
- i atgyfnerthu sgiliau ymchwilio, cyfathrebu, cymhwyso Rhif, Llythrennedd, TGCh, Datrys Problemau, gweithio yn unigol a gydag eraill.

## SUT FYDDAI'N DYSGU?

Byddi yn datblygu dy wybodaeth a'th ddealltwriaeth am gyfnodau hanesyddol, bydd cyfres o weithgareddau dosbarth cyn mynd ati i ymarfer a dwyn i gof.

## SUT FYDDAI'N CAEL FY ASESU?

| | Disgrifiad | Gwerth |
|---|---|---|
| **Uned 1** | **Arholiad:** Cymru a'r persbectif ehangach - 'Dirwasgiad, Rhyfel ac Adferiad 1930-1951' | 25% |
| **Uned 2** | **Arholiad:** Hanes yn canolbwyntio ar Ewrop / y byd - 'Yr Almaen mewn cyfnod o newid 1919-1939' | 25% |
| **Uned 3** | **Arholiad:** Newidiadau ym maes Trosedd a Chosb, tua 1500 hyd heddiw | 30% |
| **Uned 4** | **Asesiad di- arholiad:** Cyflawni asesiad mewnol dan reolaeth | 20% |

Bydd cyfle i sefyll un o'r arholiadau ym mis Mehefin Bl.10 a bydd y ddwy arholiad arall ym mis Mehefin Bl.11.

## BETH FYDD YN DIGWYDD AR ÔL Y CWRS YMA?

Ar ôl Blwyddyn 11, mae posib i ti fynd ymlaen i ddilyn Hanes fel cwrs Lefel AS/A mewn sefydliad Addysg Uwch. Bydd dy Gynghorydd Gyrfa yn gallu dy helpu i wneud dy ddewis pan fyddi di'n gadael yr ysgol.

## SYNIADAU AM SWYDDI

- Archeolegwr
- Athro/ Athrawes Hanes
- Archifydd
- Gwleidydd
- Ymchwilydd
- Cyfreithiwr
- Economegydd

## AM FWY O WYBODAETH?

Gofynnwch i'ch Athrawon, Cynghorydd Gyrfa neu ymweld â'r wefan www.cbac.co.uk

# IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT (TGAU)

## LLEOLIAD: YSGOL BOTWNNOG

## BETH FYDDAI'N EI DDYSGU?

Bydd y cwrs hwn yn dy helpu:

- I ddysgu mwy am y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant.
- I feithrin dealltwriaeth o anghenion cymdeithasol, corfforol, emosiynol a diwylliannol pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth, a cydnabod bod gan bawb eu galluoedd a'u hanghenion unigryw eu hunain.
- I feithrin dealltwriaeth o sut mae darpariaeth gwasanaethau yng Nghymru yn cefnogi datblygiad a llesiant unigolion i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus, nawr ac yn ddiweddarach mewn bywyd.

## SUT FYDDAI'N DYSGU?

Byddi yn datblygu dy wybodaeth a'th ddealltwriaeth am y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, bydd cyfres o weithgareddau dosbarth cyn mynd ati i ymarfer a dwyn i gof.

## SUT FYDDAI'N CAEL FY ASESU?

| | **Disgrifiad** | **Gwerth** |
|---|---|---|
| **Uned 1** | **Arholiad:** Twf, datblygiad a llesiant dynol | 40% |
| **Uned 2** | **Asesiad di- arholiad:** Hybu a chynnal iechyd a llesiant | 60% |

## BETH FYDD YN DIGWYDD AR ÔL Y CWRS YMA?

Ar ôl Blwyddyn 11, mae posib i ti fynd ymlaen i ddilyn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant ar lefel UG neu Safon Uwch. Hefyd, mae'r fanyleb hon yn darparu sylfaen addas ar gyfer amrywiaeth o gymwysterau Lefel 2 neu Lefel 3 yn y gyfres Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant. Bydd dy Gynghorydd Gyrfa yn gallu dy helpu i wneud dy ddewis pan fyddi di'n gadael yr ysgol.

## SYNIADAU AM SWYDDI

Gweithiwr Cymdeithasol

Gweithiwr Ieuenctid

Gofalwr/wraig Plant

Nyrsio

Cynorthwyydd Gofal Iechyd

Cynorthwyydd Gofal Cartref

## AM FWY O WYBODAETH?

Gofynnwch i'ch Athrawon, Cynghorydd Gyrfa neu ymweld â'r wefan [www.cbac.co.uk](http://www.cbac.co.uk)

# PEIRIANNEG (BTEC - GWOBR GYNTAF LEFEL 2 - CYWERTH AG 1 TGAU A*-C)

## LLEOLIAD: COLEG MEIRION DWYFOR – PWLLHELI

Os ydych yn dilyn y cwrs yma bydd rhaid i chi deithio ar fws o Fotwnnog i Bwllheli am un pnawn bob wythnos - byddwch yn dychwleyd adref ar fysus y coleg am 4:30. Mae yna nifer cyfyngedig o lefydd ar gael ar y cwrs yma.

## BETH FYDDAI'N EI DDYSGU?

Dysgu sut mae gweithio'n ddiogel ac effeithiol mewn maes peirianyddol.
Defnyddio offer llaw a pheirianyddol i gynhyrchu nifer o eitemau a gweithio'n effeithio l fel rhan o dîm.

Yr unedau fyddi'n eu dilyn, fydd:

- Uned 1 Y Byd Peirianyddol (Arholiad)
- Uned 2 Archwilio Cynnyrch Peirianyddol (4 aseiniad)
- Uned 4 Uned 4 : Cynnal a Chadw Peirianyddol (3 Aseiniad)
- Uned 6 : Peirianneg gyda chymorth cyfrifiadur gan gynnwys Cystadleuaeth Fformiwla 1 mewn Ysgolion (Newydd yn 2023)

## SUT FYDDAI'N DYSGU?

Byddi'n cael dy ddysgu gan ddarlithwyr peirianneg profiadol. Bydd 15% o'r cwrs yn cael ei ddysgu drwy weithgareddau ymarferol. Bydd y 85% arall yn cael ei ddysgu yn y dosbarth.

## SUT FYDDAI'N CAEL FY ASESU?

Bydd prawf allanol ar lein ar gyfer un uned. Bydd y gweddill yn cael ei asesu trwy aseiniadau a gwaith ymarferol.

## BETH FYDD YN DIGWYDD AR ÔL Y CWRS YMA?

Parhau i astudio cwrs pellach ar lefel 2 neu lefel 3 yn y maes peirianyddol.

Astudio cyrsiau eraill ar lefel 2 neu lefel 3

Gwneud cais am brentisiaeth.

## SYNIADAU AM SWYDDI

- Technegydd Peirianneg Mecanyddol
- Technegydd Peirianneg Morwrol
- Peiriannydd cynhyrchu
- Peiriannydd Cynnal a Chadw

## AM FWY O WYBODAETH?

Cysylltwch â'r Coleg ym Mhwllheli 01758 701385 neu wefan [www.edexcel.com](http://www.edexcel.com)

# PERFFORMIO GWEITHREDIADAU PEIRIANNEG (TYSTYSGRIF NVQ EAL LEFEL 1 CYWERTH AG 1 TGAU D-G)

## LLEOLIAD: COLEG MEIRION DWYFOR – PWLLHELI

Os ydych yn dilyn y cwrs yma bydd rhaid i chi deithio ar fws o Fotwnnog i Bwllheli am un pnawn bob wythnos - byddwch yn dychwleyd adref ar fysus y coleg am 4:30. Mae yna nifer cyfyngedig o lefydd ar gael ar y cwrs yma.

## BETH FYDDAI'N EI DDYSGU?

Dysgu sut mae gweithio'n ddiogel ac effeithiol mewn maes peirianyddol.
Dysgu technegau maincosod a chydosod mecanyddol.

Yr unedau fyddi'n eu dilyn, fydd:

- Uned 1 : Cydymffurfio gyda rheolau statudol a gofynion diogelwch sefydliad.
- Uned 2 : Cyflawni gweithgareddau peirianneg yn effeithiol.
- Uned 3 : Defnyddio a chyfathrebu gwybodaeth technegol
- Uned 4 : Gwneud darnau yn defnyddio offer llaw a technegau ffitio
- Uned 5: Cydosod darnau mecanyddol

## SUT FYDDAI'N DYSGU?

Yn bennaf yn y gweithdy ar dasgau ymarferol, ond mi fydd yna asesiadau ar bapur i'w cwblhau yn y dosbarth yn ogystal.

## SUT FYDDAI'N CAEL FY ASESU?

Bydd 6 darn ymarferol yn cael ei asesu, gwaith papur yn ymwneud a phob darn ymarferol, a 3 papur prawf gwybodaeth.

## BETH FYDD YN DIGWYDD AR ÔL Y CWRS YMA?

Mi fydd yn bosib i chi fynd ymlaen i astudio 'Crefft Peirianneg Lefel 2' neu 'Peirianneg Morol Lefel 2' fel cwrs llawn amser yn yr Hafan (Pwllheli).

## SYNIADAU AM SWYDDI

- Peiriannydd
- Ffitiwr
- Cynnal a Chadw
- Ffabrigo

## AM FWY O WYBODAETH?

Cysylltwch â'r Coleg ym Mhwllheli 01758 701385

# TECHNOLEG DIGIDOL (TGAU) - CWRS NEWYDD

## BETH FYDDAF YN EI DDYSGU?

Bydd y fanyleb CBAC TGAU mewn Technoleg Ddigidol yn galluogi dysgwyr i:

- ddod yn annibynnol, yn hyderus ac yn wybodus wrth ddefnyddio technolegau digidol newydd, technolegau sy'n bodoli eisoes a thechnolegau datblygol
- meithrin gwybodaeth am wahanol systemau technoleg ddigidol a ddefnyddir mewn amrywiaeth o sectorau galwedigaethol
- deall effaith bosibl technolegau digidol ar unigolion a chymdeithas ehangach a'r ffyrdd y gallant arwain at newid
- meithrin sgiliau wrth drefnu a dadansoddi data er mwyn adnabod tueddiadau a chynulleidfaoedd
- dod yn wneuthurwyr cynhyrchion digidol, mewn amrywiaeth o fformatau ac at amrywiaeth o bwrpasau, sy'n bodloni anghenion penodedig a dilys
- meithrin sgiliau trosglwyddadwy wrth ddefnyddio amrywiaeth o galedwedd a meddalwedd
- meithrin eu dealltwriaeth o gylchred oes datblygu systemau a'r ffordd y gall syniadau ddod yn gynhyrchion.

## SUT Y BYDDAF YN DYSGU?

Yn ystod y cwrs yma byddwch yn dysgu, datblygu a chymhwyso sgiliau defnyddio meddalwedd TGCH mewn ystod o gyd-destunau. Byddwch yn arbrofi gyda meddalwedd ac yn defnyddio'r meddalwedd i ddatrys problemau a osodir. Byddwch yn ymchwilio i'r defnydd o TGCH yn y cartref, ysgol, busnes a diwydiant.

## SUT Y BYDDAF YN CAEL FY ASESU?

| | Disgrifiad | Gwerth |
|---|---|---|
| **Uned 1** | **<u>Y Byd Digidol</u>**<br>**Arholiad ar sgrin 1 awr 30 munud:**<br>Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â'r canlynol:<br>• systemau technoleg ddigidol<br>• gwerth technoleg ddigidol<br>• safbwyntiau ar dechnoleg ddigidol | 40% |
| **Uned 2** | **<u>Arferion digidol</u>**<br>**Asesiad di-arholiad: 45 awr**<br>Asesiad di-arholiad yn cynnwys dwy adran. Yn Adran A, bydd ymgeiswyr yn holi set ddata a fydd wedi'i darparu ac wedi'i mewnforio i daenlen er mwyn gallu cwblhau Adran B, lle y byddant yn creu gwefan sy'n ymgorffori naill ai animeiddiad neu gêm sy'n gysylltiedig â chyd-destun penodol | 40% |
| **Uned 3** | **<u>Cyfathrebu yn y byd digidol</u>**<br>**Asesiad di-arholiad: 15 awr**<br>Asesiad di-arholiad yn canolbwyntio ar farchnata asedau digidol gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Bydd ymgeiswyr yn creu asedau digidol sy'n gysylltiedig â chyd-destun penodol ac yna'n llunio ymgyrch cyfathrebu digidol | 20% |

## BETH SY'N DIGWYDD AR ÔL Y CWRS HWN?

Yn dilyn cwblhau'r cwrs hwn gallwch fynd ymlaen i astudio TGCh neu Gyfrifiadureg Lefel A, neu i astudio unrhyw gwrs efo agweddau TGCh.

## SYNIADAU AM SWYDDI!

- Dylunydd Gwefan, Peiriannydd TGCh, Dylunydd Gemau, Cychwyn Busnes, Dadansoddwr Systemau, Dylunydd Meddalwedd

## AM FWY O WYBODAETH?

Gofynnwch i'ch Athrawon, Cynghorydd Gyrfa neu ymweld â'r wefan www.cbac.co.uk

# CYMWYSTERAU AGORED CYMRU

**MAE’R CYMHWYSTERAU HYN FWYAF ADDAS I DDISGYBLION SYDD YN SETIAU 3 YN Y PYNCIAU CRAIDD**
Mae Agored Cymru yn cynnig dau gymhwyster cydnabyddedig ond cwbl wahanol sy'n gyfwerth â dwy TGAU ar lefel 2 (TGAU cyfwerth â gradd B) neu lefel 1 (TGAU sy'n cyfateb i radd G).
Asesir y ddau gymhwyster Agored Cymru yn gyfan gwbl ar waith cwrs heb unrhyw elfen arholiad.

## Tystysgrif Agored Cymru - Addysg Gysylltiedig â Gwaith

Mae'r cymwysterau Addysg Gysylltiedig â Gwaith yn bodloni anghenion Gyrfaoedd a’r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru.

Mae'r cymwysterau yn bodloni gwahanol themâu Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith: cyrhaeddiad personol; chwilio am wybodaeth; deall y byd gwaith; arweiniad; a gwneud penderfyniadau a'u rhoi ar waith.

Mae'r cymwysterau yn galluogi dysgwyr i fod yn ‘barod am waith’ ac i gyfrannu'n sylweddol yn y gweithle, un ai mewn rôl wirfoddol neu mewn swydd.

Mae'r cymwysterau yn cefnogi dysgwyr i wneud y canlynol:

- gwireddu eu dyheadau ar gyfer y dyfodol drwy gynllunio ac archwilio llwybrau gyrfa a chyflogaeth posibl
- deall y sgiliau, y gwerthoedd a'r agweddau sydd eu hangen yn y gweithle
- deall sut mae'r hyn maent yn ei ddysgu yn berthnasol i'w dyfodol.
- yn cefnogi ac yn grymuso pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau cyflogadwyedd drwy'r cymwysterau. Mae hyn yn golygu bod pobl ifanc yn barod ar gyfer gofynion y gweithle a bod gan gyflogwyr weithwyr sy'n bodloni eu safonau a'u disgwyliadau hwy.

## Tystysgrif Agored Cymru - Cymru, Ewrop a’r Byd

Mae’r Tystysgrif Cymru, Ewrop a'r Byd yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o fywyd yng Nghymru, yn y DU, yn Ewrop ynghyd â sut mae Cymru yn ffitio yn y byd.

Mae’r cymwysterau Golwg ar Gymru yn cefnogi Cymru, Ewrop a'r Byd: Fframwaith ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed yng Nghymru Llywodraeth Cymru.

Mae'r cymwysterau'n cefnogi dulliau dysgu pobl ifanc ar draws yr elfennau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol yn y fframwaith.

Yn sgîl y cymwysterau hyn bydd modd i ddysgwyr sicrhau'r canlynol:

- deall sut mae eu bywydau'n rhan o'r darlun lleol a’r darlun byd-eang gan eu galluogi i wybod sut mae materion gwleidyddol yn effeithio arnynt
- deall sut i wneud newidiadau er mwyn gwella bywydau pobl eraill
- deall effeithiau tlodi a sut caiff cyfoeth ei greu
- cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol.

## Tystysgrif Agored Cymru – Addysg Bersonol a Chymdeithasol

Mae'r cymwysterau wedi'u mapio i Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru(2008). Bydd cymwysterau'n cael eu mapio i Gwricwlwm Cymru ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad.

Bydd dysgwyr sy'n defnyddio'r cymwysterau hyn yn barod i fyw eu bywydau fel y gallant fod yn unigolion iach, hyderus, gwydn a medrus yn eu cymuned leol a chenedlaethol.

Bydd disgyblion yn datblygu sgiliau yn y meysydd hyn:

- Datblygu sgiliau gan gynnwys gwydnwch, pendantrwydd a meddwl yn feirniadol
- Cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Iechyd a lles emosiynol
- Camddefnyddio sylweddau
- Rhyw a pherthnasoedd
- Bwyd a maeth
- Cymdeithas a chymuned
- Yr amgylchedd a chynaliadwyedd
- Diogelwch cymunedol
- Moeseg a moesoldeb
- Rheolaeth ariannol
- Gweithgarwch Corfforol